


ACT 14: Cwm Solfach



Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron * © Getmapping plc.
Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata.
Yn cynnwys data deiliannol Arolwg Ordnans. Rhif trwydded Arolwg Ordnans 100019741.

Graddfa'r map 1:22,000 @ A4
CB: EB:phillip LUC Location 31/01/2023
Source: OS, FC, NRW

Safle'r Coed a'r Coetir a Chanllaw
ar Ddyluniad
Awdurdod Parc Cenedlaethol
Afordir Penfro



ACT 14 Lleoliad ac Arwynebedd Coetir Presennol

ACT 14: Cwm Solfach


ACT Cyfagos


Coetir Presennol

Coetiroedd Hynafol

Coetir Cenedlaethol y Goedwig*

*Diffiniad y RhGG o goetir ydy
ardal ag arwynebedd o leiaf 0.5 hectar





Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron * © Getmapping plc.
Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata.
Yn cynnwys data deilianol Arolwg Ordnans. Rhif trwydded Arolwg Ordnans 100019741.


CB: EB:philipb LUC Nature Designations 01/02/2023
Source: OS, NRW


Safle'r Coed a'r Coetir a Chanllaw
ar Ddyluniad
Awdurdod Parc Cenedlaethol
Afordir Penfro



ACT 14 Dynodiadau Cadwraeth Natur

- ACT 14: Cwm Solfach
- ACT Cyfagos
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig
- Ardal Cadwraeth Arbennig
- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig





Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2022
Yn cynnwys data Cadw ©


CB: EB:philipb LUC Heritage 31/01/2023
Source: OS, Cadw

Safle'r Coed a'r Coetir a Chanllaw
ar Ddyluniad
Awdurdod Parc Cenedlaethol
Afordir Penfro



ACT 14 Dynodiadau Amgylchedd Hanesyddol

- ACT 14: Cwm Solfach
- ACT Cyfagos
- Tirwedd Hanesyddol Eithriadol
- Heneb Gofrestredig
- Ardai Gadwraeth



Arwynebedd coetir presennol o fewn yr ACT



Mae coetiroedd wedi'u crynhoi ar lethrau dyffryn Afon Solfach, gyda choed prysgog llai ar dir uwch.

Nodweddir yr Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hon gan ddyffryn afon morydol a amgylchynir gan iseldir tonnog wrth gyrraedd yr arfordir yn ne'r ACT. Coetir ydy 7.6% o gyfanswm arwynebedd y tir, a rhywogaethau llydanddail a geir yn bennaf (95.7%). Mae'r rhan fwyaf o'r coetiroedd mewn lleiniau hirgul ar hyd cwrs Afon Solfach ac mae ardaloedd o brysgwydd a rhedyn rhyngddynt. Mae'r lleiniau hyn o goetir yn tueddu i fod ar raddfa fach ac ar y cyfan, yn llai na 10 hectar. Yn y dirwedd amaethyddol, mae caeau wedi'u gwahanu gan wrychoedd sydd wedi gordyfu, gydag ambell goeden gollddail. Lleolir llinellau o goed mewn rhai rhannau o Solfach, sy'n darparu cysgod i adeiladau rhag yr amodau arfordirol agored.

Nodweddion dynodedig a phriodoleddau gwerthfawr yn yr ACT		
<i>Mae'r Canllaw hwn yn canolbwyntio ar sensitifrwydd a chyfleoedd ar gyfer creu coetiroedd mewn perthynas â chymeriad tirwedd. Dim ond rôl gynghorol all fod iddo wrth bwysu a mesur manteision posib creu coetiroedd o'u cymharu ag effeithiau posib ar gynefinoedd nad ydynt yn goetiroedd ac asedau treftadaeth ddiwylliannol, y dylid eu hystyried yn fwy manwl ar lefel safle. Gweler y prif adroddiad am ragor o fanylion.</i>		
Treftadaeth naturiol	ACA, AGA, SoDdGA GNG, GNL (yn cynnwys gwarchodfeydd Ymddiriedolaethau Natur /RSPB) Coetir hynafol	Mae dwy ACA yn yr ACT sy'n cwmpasu 9.1 ha (3% o'r ACT). Mae SoDdGA Arfordir Penrhyn Dewi yn cwmpasu 25.9ha (8.6% o'r ACT). Mae Coetir hynafol yn cwmpasu 0.19 ha (0.06%) o'r ACT.
	Cynefinoedd â blaenoriaeth Adran 7	Coetir llydanddail lled-naturiol a phrysgwydd trwchus Glaswelltir asid (heb ei wella, ac wedi'i led-wella) Cynefinoedd rhynglanw

Treftadaeth ddiwylliannol	Cofrestr Tirweddau Hanesyddol y Parc Cenedlaethol Henebion Cofrestredig, Ardaloedd Cadwraeth, Adeiladau Rhestredig a data CAH	Mae Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru Penrhyn Tyddewi ac Ynys Dewi yn cwmpasu 29% o'r ACT. Mae ACT 14 Cwm Solfach yn cynnwys 117 o asedau CAH, sy'n cynnwys rhychwant o nodweddion archaeolegol a hanesyddol, gan gynnwys henebion cofrestredig a rhai heb eu dynodi, adeiladau hanesyddol sydd wedi'u rhestru a rhai sydd heb eu rhestru asedau lleoliadau darganfyddiadau. Mae'r nodweddion hyn yn dyddio o gyfnod cynhanes i gyfnodau diweddar.
Sensitifrwydd y dirwedd i blannu coetir newydd		
Elfennau sensitif allweddol	■ Graddfa fach tirffurf y dyffryn morydol clôs sy'n gwrthgyferbynnu â thirffurf mwy agored y tir sy'n raddol donnog yng ngogledd-ddwyrain yr ACT. ■ Cynefinoedd lled-naturiol, gan gynnwys cynefinoedd rhostir pwysig ar hyd llawr y dyffryn a chynefinoedd bach o laswelltir corsio a gwernydd sy'n gysylltiedig â chyrsiau dŵr. Mae rhan ddeheuol y dyffryn wedi cael dynodiadau rhyngwladol/cenedlaethol fel ACA/SoDdGA oherwydd nodweddion daearegol a biolegol. ■ Cynefinoedd rhedyn a phrysgwydd ar ben arfordirol deheuol yr ACT sy'n cynnal amrywiaeth o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid, gan gynnwys brithion perlog bach. ■ Y gorchudd coetir helaeth sy'n drwch ar lethrau'r dyffryn. ■ Y patrwm o gaeau afreolaidd o faint bach i ganolig â'u gwrychoedd terfyn, ac eithrio caeau mawrion yng ngogledd yr ACT. ■ Ymdeimlad hanesyddol o le yn Solfach a'i statws Ardal Gadwraeth (sy'n cwmpasu llawer o ran ddeheuol yr ACT hon). ■ Nodweddion hanesyddol ac archaeolegol eithriadol, yn arbennig yr odyrau calch ger harbwr Solfach a chaer a lloc cynhanesyddol (mae pob un yn Henebion Cofrestredig). ■ Mae rhan ogleddol y dyffryn yn rhan o Dirwedd ehangach o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Penrhyn Tyddewi ac Ynys Dewi. ■ Mae'r golygfeydd o fewn y dyffryn toredig wedi'u cyfyngu gan y tirffurf a'r llystyfiant. Golygfeydd tua'r arfordir o Solfach sy'n creu ymdeimlad penodol o le. ■ Priodoleddau caeedig a chlôs y dyffryn coediog cysgodol. Ar dir uwch, mae gan y dirwedd gymeriad agored a digysgod ac mae wedi'i dylanwadu gan yr arfordir.	
Trosolwg	Mae graddfa glôs y dyffryn, y cyfoeth o nodweddion treftadaeth a chynefinoedd lled-naturiol yn sensitif i newid drwy greu coetiroedd. Nodweddir y dyffryn gan orchudd coetir helaeth ac mae rhai cyfleoedd i ehangu'r coetir hwn i mewn i'r tir amaethyddol o'i amgylch er mwyn cynyddu'r arwynebedd coed o fewn yr ACT hon (gyda choetiroedd hyd at raddfa ganolig). Oherwydd graddfa fach y dirwedd, byddai coetiroedd ar raddfa fawr yn newid cymeriad Cwm Solfach a'r ardal amaethyddol o'i amgylch, er bod potensial y gallai caeau mawrion yng ngogledd yr ACT dderbyn coetir ar raddfa fawr. Mae ardaloedd uchel ac arfordirol yr ACT, a nodweddir gan gymeriad agored a digysgod gyda golygfeydd eang a lleoliad Ardal Gadwraeth Solfach, yn hynod sensitif i greu coetiroedd o unrhyw raddfa. Mae sensitifrwydd y dirwedd i goetiroedd cymysg o bob graddfa yn uchel ar gyfer yr ACT hon.	

Sgoriau Sensitifrwydd Tirwedd					
Coetiroedd llydanddail ar raddfa fach (≤5ha)	Isel				
Coetiroedd llydanddail ar raddfa fach-ganolig (>5-15ha)		Isel-cymedrol			
Coetiroedd llydanddail ar raddfa ganolig (>15-30ha)			Cymedrol		
Coetiroedd llydanddail ar raddfa fawr (>30ha)				Cymedrol-uchel	

Cyfleoedd ar gyfer gosod coed a choetiroedd yn y dyfodol o fewn yr ACT	
■	Mae cyfleoedd ar gyfer creu coetiroedd, hyd at raddfa ganolig, nesaf at y coetiroedd presennol yn y dyffryn er mwyn cynyddu arwynebedd coetir yn y tir amaethyddol.
■	Gallai plannu coetiroedd ar raddfa fach neu fach-ganolig ar hyd dyffryn yr afon roi mwy o gysylltedd ag ardaloedd presennol o goetir mewn tirweddau cyffiniol (oddi mewn a thu hwnt i ffiniau'r Parc Cenedlaethol).
■	Gallai creu coetiroedd ar raddfa fach roi cyfleoedd i gynyddu cysylltedd coetiroedd llydanddail presennol a choetiroedd llinol torlannol ac atgyfnerthu eu cymeriad caeedig, coediog.
■	Mae cyfleoedd i ddefnyddio creu coetiroedd ar raddfa fach i feddalu ymyl anheddiad Solfach Uchaf a'i gymhathu'n well gyda'r dirwedd.
■	Ystyried y potensial ar gyfer adferiad naturiol coetir a phrysgwydd lled-naturiol sy'n ymestyn ar hyd y cyrsiau dŵr er mwyn gwella rheolaeth llifogydd, ansawdd dŵr, bioamrywiaeth, ac i helpu i atal erydiad pridd.
■	Lleoli coetiroedd newydd ar raddfa fach er mwyn sgrinio datblygiadau ar ffermydd a'u cymhathu i mewn i'r patrwm presennol o ddosbarthiad coetiroedd a defnydd tir.
■	Ystyried y cyfleoedd ar gyfer adfer ac ehangu porfeydd coediog traddodiadol.
■	Dylai unrhyw blannu o'r newydd ddilyn egwyddorion dylunio da fel y'u gosodir yn Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig.
■	Dylid dewis rhywogaethau cynhenid priodol sy'n gweddu i'r amodau lleol (e.e. hinsawdd, pridd, hydroleg, llystyfiant presennol) er mwyn sicrhau cymeriad clytwaith coetiroedd amrywiol.

Canllawiau strategol ar gyfer plannu coetiroedd / coed o'r newydd	
Tirffurfiau a graddfa	
■	Cynllunio coetiroedd i gadw at gyfuchliniau a phatrwm tonnau presennol llethrau dyffryn yr afon a dyffrynnoedd cul y llednentydd.
■	Osgoi colli neu ddifrodi nodweddion daearegol neu geomorffolegol arwyddocaol, gan gynnwys y rhai sydd o fewn SoDdGA Arfordir Penrhyn Dewi.
Gorchudd tir (yn cynnwys cynefinoedd lled-naturiol)	
■	Osgoi effeithiau niweidiol ar ardaloedd presennol o gynefin lled-naturiol nad ydynt yn goetiroedd, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ac annog amrywiaeth o rwydweithiau cynefinoedd. Mae hynny'n cynnwys cynefinoedd rhostir a morydol sydd o bwysigrwydd rhyngwladol ac a ddynodwyd yn ACA/SoDdGA yn ogystal â chynefinoedd rhedyn a phrysgwydd atgynhyrchiol.
Patrwm caeau	
■	Adfer ac atgyfnerthu'r patrwm o gaeau pori drwy gadw ac adfywio gwrychoedd a chloddiau terfyn.
■	Adfer lleiniau o wrychoedd sydd wedi'u colli yn sgil dwysáu amaethu, yn arbennig yng ngogledd yr ACT.
■	Ystyried gadael i wrychoedd dyfu tuag allan (lle nad ydynt yn rhwystro priffyrdd/hawliau tramwy cyhoeddus) drwy leihau'r cylchoedd tocio/ffustio, er mwyn gwella bioamrywiaeth.
■	Cadw coed gwrychoedd presennol a phlannu rhai newydd lle nad oes rhai i'w cael neu i osgoi heneiddio. Dewis

rhywogaethau sy'n gwrthsefyll plâu ac afiechyd.

Cymeriad coed a choetiroedd presennol

- Cadw ac adfer coetiroedd a choed llydanddail lled-naturiol presennol yn y dirwedd, gan gynnwys terfynau caeau, er mwyn gwella cysylltedd a chryfhau fframwaith y dirwedd.
- Annog rhychwant amrywiol o rywogaethau cynhenid er mwyn datblygu gwytnwch rhag effaith pathogenau, plâu ac afiechydon, e.e. *Phytophthora*, *Chalara* (clefyd coed ynn).

Cymeriad hanesyddol

- Osgoi cael effaith niweidiol, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog yr ardal. Mae hynny'n cynnwys yr odynau calch hanesyddol yn harbwr Solfach a'r caerâu a llociau cynhanesyddol.
- Diogelu lleoliad yr Ardal Gadwraeth yn Solfach sydd hefyd yn cynnwys rhannau o'r dirwedd o amgylch y pentref.
- Mae gogledd yr ACT yn rhan fach o Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Gofrestredig Penrhyn Tyddewi ac Ynys Dewi, ac mae'n darparu rhan o leoliad ehangach nodweddion hanesyddol yn y dirwedd megis yr Ardal Gadwraeth yng Nghaerfarchell (yn ACT15). Dylid ystyried effaith plannu coetiroedd ar leoliad nodweddion sy'n cyfrannu at y dirwedd hanesyddol hon yn ofalus.

Cymeriad gweledol

- Cadw'r golygfeydd eang tua'r arfordir a'r tirweddau o amgylch o dir uwch yn yr ACT, gan gynnwys y tir o amgylch pentref Solfach a'r tir amaeth uchel i'r dwyrain o Gwm Solfach.

Rhinweddau canfyddiadol a golygfaol

- Cadw cymeriad agored rhannau arfordirol yr ACT. Lleoli coetiroedd newydd mewn modd nad yw'n amharu ar y gallu i fwynhau'r natur agored ac anghysbell yn y rhan hon o'r ACT.
- Gwella'r profiad i ddefnyddwyr hamdden, gan sicrhau y cynhelir mynediad i'r cyhoedd ar draws y rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus ar hyd yr arfordir (gan gynnwys Llwybr Arfordir Sir Benfro/Cymru), drwy'r dyffryn a thros y tir amaeth gerllaw.
- Ystyried effaith cronrus creu coetiroedd a phlannu coed, gan sicrhau nad yw hynny'n arwain at newid cymeriad y dirwedd, yn enwedig yn y dirwedd arfordirol fwy agored.



Llethrau yn drwch o goed yn rhan uchaf Cwm Solfach, i'r de o'r Felin Ganol.



Tir amaeth agored i'r gogledd o'r Felin Ganol. Mae coed yn gyfyngedig i wrychoedd a llwyni bychain wedi'u plygu gan y gwynt.